168. Section 26(8) applies section 31 of the 1990 Act, which makes provision about compensation payable in respect of depreciation of the value of an interest in land, to the compensation payable under section 28B of the 1990 Act (inserted by section 24(3) of this Act) for loss or damage attributable to the effect of interim protection.

169. Mae adran 26(10) yn ychwanegu adrannau 2B (gwarchodaeth interim hyd nes y gwneir penderfyniadau rhestru penodol) a 3A (rhestru dros dro yng Nghymru: hysbysiadau diogelu adeiladau) at y rhestr o ddarpariaethau nad ydynt yn gymwys i adeiladau sy'n henebion cofrestredig o dan Ddeddf 1979.
170. Mae adran 26(11) yn cymhwysyo adran 62 o Ddeddf 1990 (dilysrwydd gorchmynion a phenderfyniadau penodol) i benderfyniad ynghylch adolygiad o dan adran 2D o'r Ddeddf honno (a gaiff ei mewnosod gan adran 24(1) o'r Ddeddf hon), fel mai dim ond ar seiliau penodol y caniateir i benderfyniad o'r math hwnnw gael ei gyfeirio at yr Uchel Lys.
171. Mae adran 26(12) yn diwygio adran 82 o Ddeddf 1990 fel bod y darpariaethau newydd a gyflwynir gan y Ddeddf hon sy'n ymwneud ag ymgynghori, gwarchodaeth interim ac adolygu mewn cysylltiad â dynodi adeiladau rhestrredig yn gymwys i dir awdurdodau cynllunio lleol.
172. Mae adran 26(13) yn rhoi hawl i'r Swyddfa Brisio i gael mynediad i dir i arolygu neu amcangyfrif ei werth mewn cysylltiad â hawliad am ddigollediad am golled neu ddifrod sy'n deillio o warchodaeth interim.

### **Adran 27 – Dyroddi dystysgrif na fwriedir rhestru adeilad: Cymru**

173. Mae adran 27 yn mewnosod adran newydd 6A yn Neddf 1990 ac yn diwygio adran 6 o'r Ddeddf honno (dyroddi dystysgrif na fwriedir rhestru adeilad) fel nad yw'n gymwys ond i adeiladau yn Lloegr.
174. Mae adran newydd 6A yn caniatáu i berson wneud cais i Weinidogion Cymru i dystysgrif imiwnedd rhag rhestru gael ei dyroddi. Mae dyroddi dystysgrif imiwnedd rhag rhestru yn gwarantu na fydd adeilad yn cael ei restru am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad dyroddi'r dystysgrif ac yn atal awdurdod cynllunio lleol rhag cyflwyno hysbysiad diogelu adeilad mewn perthynas â'r adeilad yn ystod yr un cyfnod.
175. Caniateir i gais am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru gael ei wneud o dan adran 6A ar unrhyw adeg. Mae hyn yn galluogi perchenogion a datblygwyr i geisio cael gwarantau y bydd gan adeiladau imiwnedd rhag cael eu rhestru heb orfod mynd i'r gost sy'n gysylltiedig â chais am ganiatâd cynllunio, sy'n hanfodol ar gyfer cais am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru o dan adran 6.

### **Adran 28 – Cytundebau partneriaeth dreftadaeth**

176. Mae adran 28 yn mewnosod adrannau newydd 26L a 26M yn Neddf 1990, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestrredig. Gall fod rhaid i berchenogion asedau hanesyddol cymhleth neu sy'n berchen ar fwy nag un ased hanesyddol wneud cais am ystod o gydsyniadau ar wahân os ydynt yn dymuno cyflawni rhaglenni rheoli ar gyfer eu heiddo. Mewn achosion o'r fath, caiff cytundebau partneriaeth dreftadaeth ddarparu dull mwy cadarnhaol o weithredu o ran rheoli adeiladau rhestrredig yn gynaliadwy a lleihau nifer y ceisiadau am gydsyniad sy'n ofynnol.

169. Section 26(10) adds sections 2B (interim protection pending certain listing decisions) and 3A (temporary listing in Wales: building preservation notices) to the list of provisions which do not apply to buildings which are scheduled monuments under the 1979 Act.
170. Section 26(11) applies section 62 of the 1990 Act (validity of certain orders and decisions) to a decision on a review under section 2D of that Act (inserted by section 24(1) of this Act), so that a decision of that kind may only be referred to the High Court on certain grounds.
171. Section 26(12) amends section 82 of the 1990 Act so that the new provisions introduced by this Act relating to consultation, interim protection and review in connection with the designation of listed buildings apply to the land of local planning authorities.
172. Section 26(13) gives the Valuation Office a right to enter land to survey or estimate its value in connection with a claim for compensation for loss or damage arising from interim protection.

### **Section 27 – Issue of certificate that building not intended to be listed: Wales**

173. Section 27 inserts new section 6A into the 1990 Act and amends section 6 of that Act (issue of certificate that building not intended to be listed) so that it applies only to buildings in England.
174. New section 6A allows a person to apply to the Welsh Ministers for the issue of a certificate of immunity from listing. The issue of a certificate of immunity from listing guarantees that a building will not be listed for 5 years from the date of issue and prevents a local planning authority from serving a building preservation notice in relation to the building during the same period.
175. An application for a certificate of immunity from listing may be made under section 6A at any time. This enables owners and developers to seek guarantees that buildings will be immune from listing without having to incur the cost associated with an application for planning permission, which is a prerequisite for an application for a certificate of immunity from listing under section 6.

### **Section 28 – Heritage partnership agreements**

176. Section 28 inserts new sections 26L and 26M into the 1990 Act, which make provision for heritage partnership agreements relating to listed buildings. Owners of complex or multiple historic assets may have to apply for an array of separate consents if they wish to carry out management programmes for their properties. In such cases, heritage partnership agreements may provide a more positive approach to the sustainable management of listed buildings and reduce the number of consent applications required.

177. **26L Cytundebau partneriaeth dreftadaeth**

Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol perthnasol wneud cytundeb partneriaeth dreftadaeth gyda pherchennog adeilad rhesteddig neu ran o adeilad rhesteddig yng Nghymru, a chaiff unrhyw bersonau a grybwyllir yn adran 26L(2) neu (4) fod yn barti ychwanegol i'r cytundeb.

178. Mae adran 26L(6) a (7) yn nodi y caiff cytundeb partneriaeth dreftadaeth roi cydsyniad adeilad rhesteddig ar gyfer gwaith penodedig o dan adran 8(1) o Ddeddf 1990 ac atodi amodau wrth y cydsyniad hwnnw. Ni chaiff cytundeb partneriaeth dreftadaeth, fodd bynnag, roi cydsyniad i ddymchwel adeilad rhesteddig neu unrhyw ganiatâd arall, megis caniatâd cynllunio.

179. Mae adran 26L(8) yn nodi'r ystod o faterion ychwanegol y caniateir i gytundeb partneriaeth dreftadaeth wneud darpariaeth yn eu cylch, gan gynnwys manyleb o'r gwaith y mae'r partïon yn cytuno nad oes angen cydsyniad adeilad rhesteddig ar ei gyfer oherwydd na fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeilad rhesteddig.

180. Mae adran 26L(10) yn diffinio perchennog ("owner") ac awdurdod cynllunio lleol perthnasol ("relevant local planning authority") at ddiben cytundebau partneriaeth treftadaeth.

181. **26M Cytundebau partneriaeth dreftadaeth: atodol**

Mae adran newydd 26M yn gwneud darpariaeth atodol mewn perthynas â chytundebau partneriaeth treftadaeth. Mae adran 26M(1) yn darparu bod rhaid i gytundebau o'r fath fod yn ysgrifenedig a rhaid iddynt wneud darpariaeth ar gyfer adolygu, terfynu ac amrywio'r cytundebau gan y partïon.

182. Mae adran 26M(2) yn caniatâu i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gwmpasu mwy nag un adeilad rhesteddig, ar yr amod bod awdurdod cynllunio lleol perthnasol (neu Weinidogion Cymru) a pherchennog yn bartïon i'r cytundeb ym mhob achos. Er enghraifft, gallai cytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys pob un o'r pontydd rhesteddig y mae awdurdod lleol yn berchen arnynt.

183. Mae adran 26M(3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yngylch: yr ymgynghori a'r cyhoeddusrwydd y mae eu hangen mewn cysylltiad â chreu neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth; unrhyw delerau penodol y mae rhaid eu cynnwys mewn cytundeb; a darpariaethau ar gyfer terfynu cytundeb neu unrhyw ddarpariaeth ohono.

184. Mae adran 26M(5) yn caniatâu i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ddatgymhwys, cymhwys neu atgynhyrchu, gydag addasiadau neu hebddynt, ddarpariaethau penodol o Ddeddf 1990 at ddiben cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

185. Mae adran 26M(6) yn darparu na fydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth ond yn rhwymo'r partïon i'r cytundebau hynny. Ni fydd perchenogion a meddianwyr yr adeiladau hynny yn y dyfodol yn cael eu rhwymo gan y cytundebau hynny, ac ni fyddant ychwaith yn gallu manteisio ar unrhyw gydsyniad adeilad rhesteddig a ddarperir gan y cytundeb.

177. **26L Heritage partnership agreements**

The Welsh Ministers or a relevant local planning authority may make a heritage partnership agreement with an owner of a listed building or part of a listed building in Wales, and any persons mentioned in section 26L(2) or (4) may be an additional party to the agreement.

178. Section 26L(6) and (7) sets out that a heritage partnership agreement may grant listed building consent for specified works under section 8(1) of the 1990 Act and attach conditions to that consent. A heritage partnership agreement may not, however, grant consent for the demolition of a listed building or any other permission, such as planning permission.

179. Section 26L(8) sets out the range of additional matters for which a heritage partnership agreement may make provision, including the specification of works that the parties agree would not affect the character of the listed building and, therefore, do not require listed building consent.

180. Section 26L(10) defines "owner" and "relevant local planning authority" for the purpose of heritage partnership agreements.

181. **26M Heritage partnership agreements: supplemental**

New section 26M makes supplemental provision in relation to heritage partnership agreements. Section 26M(1) provides that such agreements must be in writing and make provision for review, termination and variation by the parties.

182. Section 26M(2) allows a heritage partnership agreement to cover more than one listed building, provided that, in each case, a relevant local planning authority (or the Welsh Ministers) and an owner are parties to the agreement. For example, a heritage partnership agreement could include all of the listed bridges in the ownership of a local authority.

183. Section 26M(3) places a duty upon the Welsh Ministers to make regulations about: the consultation and publicity required in connection with the creation or variation of a heritage partnership agreement; any particular terms that must be included in an agreement; and provisions for termination of an agreement or any provision thereof.

184. Section 26M(5) allows the Welsh Ministers by regulations to disapply, apply or reproduce, with or without modifications, certain provisions of the 1990 Act for the purpose of heritage partnership agreements.

185. Section 26M(6) provides that heritage partnership agreements will only be binding on the parties to those agreements. Future owners and occupiers of those buildings will not be bound by those agreements, nor will they be able to benefit from any listed building consent provided by the agreement.

## Adran 29 – Hysbysiadau stop dros dro

186. Mae adran 29 yn mewnosod adrannau newydd 44B i 44D yn Neddf 1990 sy'n gwneud darpariaeth i ganiatáu i hysbysiadau stop dros dro gael eu dyroddi mewn perthynas ag adeiladau rhestrydig.
187. **44B Hysbysiadau stop dros dro**  
Yn aml mae gwaith anawdurdodedig yn dinistrio adeiladwaith hanesyddol adeiladau rhestrydig, ynghyd â difrodi eu diddordeb arbennig. Mae Deddf 1990 yn ei gwneud yn drosedd i wneud gwaith anawdurdodedig i adeilad rhestrydig neu i fethu â chydymffurfio ag amodau cydsyniad adeilad rhestrydig. Mae'r un Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhestrydig i'w gwneud yn ofynnol i adeilad rhestrydig gael ei adfer ar ôl i waith anawdurdodedig gael ei wneud arno, neu i gamau gael eu cymryd i leddefu effeithiau gwaith o'r fath. Ni chaiff hysbysiad gorfodi adeilad rhestrydig ddod yn effeithiol yn gynharach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl ei gyflwyno. Os gwneir apêl yn ei erbyn, ni fydd hysbysiad gorfodi yn cymryd effaith hyd nes y penderfynir ar yr apêl neu hyd nes y tynnir yr apêl yn ôl, oni bai bod llys yn dyfarnu fel arall. Mewn cyferbyniad, gall hysbysiad stop dros dro ddod â gwaith anawdurdodedig i ben ar unwaith, gan osgoi'r risg o ddifrod pellach i adeiladwaith hanesyddol yr adeilad.
188. Mae adrannau 44B i 44D yn darparu pŵer i awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiad stop dros dro i'w gwneud yn ofynnol i'r gwaith anawdurdodedig ddod i ben ar unwaith am gyfnod o 28 o ddiwrnodau er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
189. Caiff awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad stop dros dro os ymddengys i'r awdurdod fod gwaith yn cael ei wneud neu wedi ei wneud i adeilad rhestrydig heb gydsyniad neu sy'n torri amod sydd ynghlwm wrth gydsyniad ac y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn hwylus bod y gwaith hnwnw yn dod i ben ar unwaith, o ganlyniad i'w effaith ar gymeriad yr adeilad fel adeilad o ddiddordeb pensaerniol neu hanesyddol arbennig (adran 44B(1) a (2)).
190. Mae adran 44B(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig a'i fod yn pennu'r gwaith sydd i ddod i ben, esbonio pam y dyroddwyd yr hysbysiad a datgan bod torri'r hysbysiad yn drosedd. Nid oes angen i'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad stop dros dro gynnwys yr holl waith sydd ar y gweill. Er enghraifft, efallai y bydd awdurdod cynllunio lleol yn dymuno bod y gwaith o newid neu o ddileu un nodwedd benodol yn dod i ben, megis ffenestr, sy'n rhan o raglen ehangach o waith, ond efallai y bydd wedi ei fodloni bod gweddill y rhaglen waith wedi ei awdurdodi gan gydsyniad adeilad rhestrydig neu'n waith atgyweirio syml na fydd yn effeithio ar gymeriad yr adeilad.
191. Mae adran 44B(5) a (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro ar yr adeilad a phennu, ar y copi, y dyddiad y mae'n gwneud hynny am y tro cyntaf. Mae'r hysbysiad yn cymryd effaith cyn gynted ag y bo'r copi yn cael ei arddangos am y tro cyntaf ar yr adeilad.

## **Section 29 – Temporary stop notices**

186. Section 29 inserts new sections 44B to 44D into the 1990 Act which make provision to allow temporary stop notices to be issued in relation to listed buildings.
187. **44B Temporary stop notices**  
Unauthorised works often destroy the historic fabric, and can damage the special interest, of listed buildings. The 1990 Act makes it an offence to carry out unauthorised works to a listed building or fail to comply with the conditions of a listed building consent. The same Act makes provision for the service of a listed building enforcement notice to require the restoration of a listed building after unauthorised works, or steps to alleviate the effects of such works. A listed building enforcement notice cannot come into effect earlier than 28 days after its service. If an appeal is lodged against it, an enforcement notice will not take effect until the appeal has been determined or withdrawn, unless a court determines otherwise. A temporary stop notice, by contrast, can bring unauthorised works to an immediate halt, avoiding the risk of further damage to the historic fabric of the building.
188. Sections 44B to 44D provide local planning authorities with a power to serve a temporary stop notice requiring the immediate cessation of unauthorised works for a period of 28 days whilst a solution to the situation is sought.
189. A local planning authority may serve a temporary stop notice if it appears to the authority that works are being or have been carried out to a listed building without consent or in breach of a condition attached to a consent and the authority considers it expedient to stop those works immediately, in consequence of their effect on the character of the building as one of special architectural or historic interest (section 44B(1) and (2)).
190. Section 44B(3) requires the notice to be in writing and to specify the works which are to stop, explain why the notice has been issued and state that contravention of the notice is an offence. The works specified in the temporary stop notice need not include all of the works that are underway. For example, a local planning authority may wish to stop the alteration or removal of a particular feature, such as a window, which is part of a wider programme of works, but may be satisfied that the remainder of the programme of works has been authorised by listed building consent, or consists of simple repairs that will not affect the character of the building.
191. Section 44B(5) and (6) requires the local planning authority to display a copy of the temporary stop notice on the building and to specify, on the copy, the date on which it first does so. The notice takes effect as soon as the copy is first displayed on the building.

192. Mae adran 44B(7) yn datgan bod hysbysiad stop dros dro yn peidio â chael effaith ar ôl cyfnod o 28 o ddiwrnodau, neu unrhyw gyfnod byrrach sydd wedi ei bennu yn yr hysbysiad. Mae adran 44B(8) i (10) yn datgan y caiff awdurdod cynllunio lleol dynnu'r hysbysiad yn ôl cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (neu unrhyw gyfnod byrrach a bennir). Ni ellir dyroddi hysbysiad stop dros dro pellach ar gyfer yr un gwaith oni bai y cymerwyd camau gorfodi eraill mewn perthynas â'r achos o dorri'r hysbysiad, er enghraifft, cyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhesteddig neu gael gwaharddeb o dan adran 44A o Ddeddf 1990. Nid oes unrhyw ofyniad i hysbysiad gorfodi adeilad rhesteddig neu unrhyw gam gorfodi arall ddod gyda hysbysiad stop dros dro neu ddilyn hysbysiad stop dros dro.
193. Mae adran 44B(11) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n esemptio gwneud gwaith penodol, neu waith o dan amgylchiadau penodol, o effeithiau hysbysiad stop dros dro. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i addasu'r defnydd o hysbysiadau stop dros dro yng ngoleuni'r profiad o'u defnyddio.
194. **44C Hysbysiadau stop dros dro: trosedd**  
Mae adran newydd 44C yn nodi'r amgylchiadau pan fydd person yn euog o drosedd am dorri hysbysiad stop dros dro ac yn caniatáu i berson gael ei euogfarnu o droseddau gwahanol drwy gyfeirio at ddiwrnodau neu gyfnodau gwahanol. Felly, bydd yn bosibl i berson gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd os ceir sawl achos o dorri hysbysiad.
195. Mae adran 44C(3) a (4) yn nodi'r amddiffyniadau i drosedd o dan yr adran hon.
196. Mae adran 44C(5) a (6) yn darparu mai'r gosb ar gyfer y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro yw dirwy ddiderfyn. Gan fod gwaith anawdurdodedig i adeilad rhesteddig yn gallu cael ei ysgogi gan y posibilrwydd o gael mantais ariannol, mae'r llysoedd i roi sylw i unrhyw fudd ariannol y gall y person a euogfarnir fod wedi ei gael neu'n debygol o'i gael o ganlyniad i'r drosedd wrth benderfynu ar swm unrhyw ddirwy sydd i gael ei gosod.
197. **44D Hysbysiadau stop dros dro: digollediad**  
Mae adran 44D(1) i (3) yn nodi'r hawl i ddigollediad mewn cysylltiad ag unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i effaith hysbysiad stop dros dro. Ni fydd digollediad ar gael ond o dan amgylchiadau penodol. Caniateir ei hawlio os nad yw'r gwaith a bennir mewn hysbysiad stop dros dro yn mynd yn groes i is-adrannau (1) neu (2) o adran 9 o Ddeddf 1990 (troseddau) oherwydd nad yw cydsyniad adeilad rhesteddig yn ofynnol neu oherwydd bod cydsyniad adeilad rhesteddig wedi ei roi ar y dyddiad neu cyn y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei arddangos am y tro cyntaf. Caniateir iddo gael ei hawlio hefyd os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn tynnu'r hysbysiad stop dros dro yn ôl ac eithrio ar ôl rhoi cydsyniad adeilad rhesteddig sy'n awdurdodi'r gwaith oherwydd, er enghraifft, y canfyddir nad oedd y gwaith wedi ei awdurdodi ac na ddylai'r hysbysiad fod wedi ei arddangos.

192. Section 44B(7) states that a temporary stop notice ceases to have effect after a period of 28 days, or any shorter period that is specified in the notice. Section 44B(8) to (10) states that a local planning authority may withdraw the notice before the end of 28 days (or any shorter period specified). A further temporary stop notice cannot be issued for the same works unless another enforcement action has been taken in relation to the contravention, for example, the service of a listed building enforcement notice or the obtaining of an injunction under section 44A of the 1990 Act. There is no requirement for a temporary stop notice to be accompanied or followed by a listed building enforcement notice or any other enforcement action.
193. Section 44B(11) allows the Welsh Ministers to make regulations that exempt the execution of certain works, or works in certain circumstances, from the effects of a temporary stop notice. This provides some flexibility for the Welsh Ministers to adapt the use of temporary stop notices in light of experience of their use.
194. **44C Temporary stop notices: offence**  
New section 44C sets out the circumstances in which a person is guilty of an offence for contravening a temporary stop notice and allows a person to be convicted of different offences by reference to different days or periods. It will be possible, therefore, for a person to be convicted for more than one offence if a notice is breached repeatedly.
195. Section 44C(3) and (4) sets out the defences to an offence under this section.
196. Section 44C(5) and (6) provides that the penalty for the offence of contravening a temporary stop notice is an unlimited fine. Since unauthorised works to a listed building may be prompted by the prospect of financial gain, the courts are to have regard to any financial benefit the person convicted may have received or be likely to receive as a result of the offence when determining the amount of any fine to be imposed.
197. **44D Temporary stop notices: compensation**  
Section 44D(1) to (3) sets out the compensation entitlement in respect of any loss or damage which can be directly attributed to the effect of a temporary stop notice. Compensation is only available in particular circumstances. It may be claimed if the works specified in a temporary stop notice do not contravene subsections (1) or (2) of section 9 of the 1990 Act (offences) because listed building consent is not required or has been granted on or before the date the notice is first displayed. It may also be claimed if the local planning authority withdraws the temporary stop notice other than following the grant of listed building consent authorising the works, because, for example, it is discovered that the works were not unauthorised and that the notice should not have been displayed.

198. Mae adran 44D(4) yn pennu na fydd unrhyw ddigollediad yn daladwy am golled neu ddifrod y gellid bod wedi ei osgoi pe bai'r hawlydd wedi darparu'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan y darpariaethau a grybwyllir yn adran 44D(5) neu pe bai wedi cydweithredu fel arall â'r awdurdod cynllunio lleol wrth ymateb i'r hysbysiad stop dros dro.
199. Y darpariaethau a grybwyllir yn adran 44D(5) yw adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, sy'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol i gael manylion personau a chanddynt fuddiant mewn tir, ac adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu o ran buddiannau mewn tir.
200. Mae adran 29(2) yn cymhwysyo adran 31 o Ddeddf 1990, sy'n gwneud darpariaeth yngylch digollediad sy'n daladwy mewn cysylltiad â dibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir, i'r digollediad sy'n daladwy o dan adran 44D am golled neu ddifrod y gellir ei briodoli i hysbysiad stop dros dro.
201. Mae adran 29(3) yn diwygio adran 82A(2) o Ddeddf 1990 (cymhwysyo i'r Goron) fel bod y darpariaethau sy'n delio â hysbysiadau stop dros dro yn rhwymo'r Goron, ac eithrio'r rhai hynny yn adran 44C sy'n ei gwneud yn drosedd i dorri hysbysiad stop dros dro.
202. Mae adran 29(4) yn diwygio adran 88 o Ddeddf 1990 (hawliau mynediad) er mwyn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol awdurdodi person yn ysgrifenedig i gael mynediad i dir at ddiben arddangos hysbysiad stop dros dro, canfod a gydymffurfiwyd â hysbysiad ac ystyried cais am ddigollediad.
203. Mae adran 29(5) yn rhoi hawl i'r Swyddfa Brisio i gael mynediad i dir i arolygu neu amcangyfrif ei werth mewn cysylltiad â chais am ddigollediad sy'n deillio o gyflwyno hysbysiad stop dros dro.
204. Mae adran 29(6) yn diwygio adran 88B o Ddeddf 1990 drwy dileu'r gofyniad i roi rhybudd o 24 awr cyn defnyddio pwerau mynediad i arddangos hysbysiad stop dros dro neu i ganfod a gydymffurfiwyd â hysbysiad.
205. Mae adran 29(7) yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf 1990 (darfodiad hysbysiadau diogelu adeiladau) fel bod unrhyw hysbysiad stop dros dro a gyflwynwyd ar yr adeilad yn peidio â chael effaith unwaith y bydd hysbysiad diogelu adeilad yn darfod.
206. Mae adran 29(8) yn diwygio Atodlen 4 i Ddeddf 1990 (arfer swyddogaethau gan awdurdodau gwahanol). O bryd i'w gilydd caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno i'w cymeradwyo ei drefniadau arfaethedig i gael cyngor arbenigol mewn cysylltiad â thalu digollediad sy'n deillio o gyflwyno hysbysiad stop dros dro.

198. Section 44D(4) specifies that no compensation will be payable for loss or damage that could have been avoided if the claimant had provided information required under the provisions mentioned in section 44D(5) or had otherwise cooperated with the local planning authority when responding to the temporary stop notice.
199. The provisions mentioned in section 44D(5) are section 16 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, which gives local authorities powers to obtain details of persons who have an interest in land, and section 330 of the Town and Country Planning Act 1990, which allows the local planning authority or the Welsh Ministers to require information as to interests in land.
200. Section 29(2) applies section 31 of the 1990 Act, which makes provision about compensation payable in respect of the depreciation of the value of an interest in land, to the compensation payable under section 44D for loss and damage attributable to a temporary stop notice.
201. Section 29(3) amends section 82A(2) of the 1990 Act (Crown application) so that the provisions which deal with temporary stop notices bind the Crown, except those in section 44C which make it an offence to contravene a temporary stop notice.
202. Section 29(4) amends section 88 of the 1990 Act (rights of entry) to allow local planning authorities to authorise a person in writing to enter land for the purpose of displaying a temporary stop notice, ascertaining whether a notice has been complied with and considering a claim for compensation.
203. Section 29(5) gives the Valuation Office a right to enter land to survey or estimate its value in connection with a claim for compensation arising from the service of a temporary stop notice.
204. Section 29(6) amends section 88B of the 1990 Act by removing the requirement to give 24 hours' notice prior to the use of powers of entry to display a temporary stop notice or to ascertain compliance with a notice.
205. Section 29(7) amends Schedule 2 of the 1990 Act (lapse of building preservation notices) so that, on the lapse of a building preservation notice, any temporary stop notice which has been served on the building ceases to have effect.
206. Section 29(8) amends Schedule 4 of the 1990 Act (exercise of functions by different authorities). From time to time, the Welsh Ministers may require a local planning authority to submit for approval its proposed arrangements to obtain specialist advice in connection with the payment of compensation arising from the service of a temporary stop notice.

**Adran 30 – Gwaith brys: estyn y cwmpas ac adennill costau**

207. Mae adran 30 yn mewnosod adrannau newydd 54(4A), 54(5A) a 55(5A) i (5G) yn Nedd 1990. Mae'r darpariaethau hyn yn estyn yr ystod o amgylchiadau y caiff awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru wneud gwaith brys oddi tanynt i ddiogelu adeilad rhestrydig, yn darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru o ran y treuliau y caniateir eu hadennill mewn cysylltiad â gwaith o'r fath, ac yn caniatâu i bridiannau tir gael eu creu i sicrhau bod y treuliau hynny yn cael eu talu.
208. Mae adran 54 o Ddeddf 1990 yn darparu ar gyfer gwneud gwaith brys gan awdurdodau lleol i adeiladau rhestrydig nad ydynt wedi eu meddiannu. Caniateir i'r pwerau yn adran 54 gael eu harfer gan Weinidogion Cymru hefyd.
209. Mae cyfyngiadau ar yr amgylchiadau y caniateir i waith brys gael ei wneud oddi tanynt o dan adran 54. Mae adran 54(4) o Ddeddf 1990 yn darparu, pan fo adeilad wedi ei feddiannu, mai dim ond i'r rhannau hynny o'r adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio y caniateir i waith brys gael ei wneud. Mae adran 30(1) o'r Ddeddf hon yn diwygio'r cyfyngiad hwn fel ei fod yn gymwys i adeiladau yn Lloegr yn unig.
210. Mae adran newydd 54(4A) yn ehangu'r amgylchiadau y caiff gwaith brys gael ei wneud oddi tanynt er mwyn diogelu adeiladau rhestrydig yng Nghymru. Mae'n galluogi i waith brys gael ei wneud ar unrhyw adeilad rhestrydig yng Nghymru ar yr amod nad yw'n amharu'n afresymol â'r defnydd preswyl a wneir ohono.
211. Mae adran 30(3) yn mewnosod is-adran newydd (5A) yn adran 54 o Ddeddf 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd adeilad sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben preswyl gael dim llai na saith niwrnod o rybudd o'r bwriad i ymgymryd â gwaith brys i'r eiddo. Rhaid rhoi o leiaf saith niwrnod o rybudd o'r gwaith hwnnw i berchennog yr adeilad hefyd, yn unol ag adran 54(5) o Ddeddf 1990.
212. Os yw awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru yn mynd i gostau wrth ymgymryd â gwaith brys i adeilad rhestrydig, cânt adennill y costau hynny yn unol ag adran 55 o Ddeddf 1990. Mae adran 55 yn darparu mai drwy gyflwyno hysbysiad i'r perchennog y cychwynnir y broses adennill. Caiff y perchennog herio'r bwriad i adennill costau drwy gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar y seiliau a nodir yn adran 55(4). Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar y swm y gellir ei adennill.
213. Mae adran 30(6) yn mewnosod is-adran newydd (5A) yn adran 55 o Ddeddf 1990 sy'n caniatâu i berchennog adeilad rhestrydig, o fewn 28 o ddiwrnodau i gael penderfyniad Gweinidogion Cymru o ran y swm y gellir ei adennill, apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r llys sirol. Caiff awdurdod lleol hefyd apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru yn yr un modd.

### **Section 30 – Urgent works: extension of scope and recovery of costs**

207. Section 30 inserts new sections 54(4A), 54(5A) and 55(5A) to (5G) into the 1990 Act. These provisions extend the range of circumstances in which local authorities or the Welsh Ministers may carry out urgent works to preserve a listed building, provide a right of appeal against the Welsh Ministers' decision as to the expenses that may be recovered in respect of such works, and allow land charges to be created to secure the payment of those expenses.
208. Section 54 of the 1990 Act provides for the execution of urgent works by local authorities to unoccupied listed buildings. The powers in section 54 may also be exercised by the Welsh Ministers.
209. There are restrictions on the circumstances in which urgent works may be carried out under section 54. Section 54(4) of the 1990 Act provides that where a building is occupied, urgent works may be carried out only to those parts of the building that are not in use. Section 30(1) of this Act amends this restriction so that it applies only to buildings in England.
210. New section 54(4A) broadens the circumstances in which urgent works can be undertaken to preserve listed buildings in Wales. It enables urgent works to be carried out to any listed building in Wales as long as they do not unreasonably interfere with its residential use.
211. Section 30(3) inserts new subsection (5A) into section 54 of the 1990 Act, which requires an occupier of a building which is in residential use to be given not less than seven days' notice of the intention to carry out urgent works to the property. The owner of the building must also be given seven days' notice of those works, in accordance with section 54(5) of the 1990 Act.
212. If local authorities or the Welsh Ministers incur expenses in undertaking urgent works to a listed building, they may recover these expenses in accordance with section 55 of the 1990 Act. Section 55 provides that the process of recovery is initiated through the service of a notice on the owner. The owner may contest the recovery of expenses by making representations to the Welsh Ministers on the grounds set out in section 55(4). The Welsh Ministers determine the amount that is recoverable.
213. Section 30(6) inserts new subsection (5A) into section 55 of the 1990 Act which allows an owner of a listed building, within 28 days of receiving the decision of the Welsh Ministers on the recoverable amount, to appeal that decision to the county court. A local authority may also appeal against the Welsh Ministers' decision in the same way.

214. Mae adran 30(6) hefyd yn mewnosod is-adrannau newydd (5B) i (5G) yn adran 55 o Ddeddf 1990 sy'n darparu mai pridiant ar y tir lle y mae'r adeilad rhesteddig yw'r costau yr aed iddynt wrth wneud gwaith brys. Mae'r is-adrannau newydd hefyd yn darparu: i log gael ei osod ar y swm sy'n ddyledus ar gyfradd sydd i'w rhagnodi drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, y modd y mae pridiant tir yn cymryd effaith, a'r pwerau a'r rhwymedïau sydd ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 i orfodi'r pridiant, gan gynnwys pŵer i benodi derbynnydd.

### **Adran 31 – Diogelu adeiladau rhesteddig mewn cyflwr gwael**

215. Mae adran 31(1) yn mewnosod adran newydd 56A yn Neddf 1990, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn i awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru gymryd camau pellach ar gyfer diogelu adeiladau rhesteddig sydd mewn cyflwr gwael yn briodol. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad diogelu i berchennog adeilad rhesteddig. Caiff hysbysiad o'r fath bennu'r gwaith sy'n ofynnol i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddiogelu'n briodol a dyddiad cau ar gyfer gwneud y gwaith. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth am apelau yn erbyn hysbysiadau diogelu, troseddau am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiadau ac apelau mewn cysylltiad â throseddau o'r fath.
216. Mae adran newydd 56A(3) a (4) yn caniatáu i'r rheoliadau o dan yr adran hon ddatgymhwys, cymhwys neu atgynhyrchu, gydag addasiadau neu hebddynt, unrhyw ddarpariaethau yn Neddf 1990, ynghyd â diwygio Deddf 1990, at ddiben diogelu adeiladau rhesteddig mewn cyflwr gwael.
217. Mae adran 31(2) yn diwygio adran 82A o Ddeddf 1990 (cymhwys i'r Goron) fel nad yw'r ddarpariaeth a wneir o dan adran 56A yn gallu rhwymo'r Goron.
218. Mae adran 31(3) yn diwygio adran 88 o Ddeddf 1990 (hawliau mynediad) er mwyn caniatáu i hysbysiadau diogelu gael eu cyflwyno.
219. Mae adran 31(4) yn diwygio Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 er mwyn galluogi i sancsiynau sifil gael eu gosod mewn cysylltiad â throseddau mewn rheoliadau a wneir o dan adran newydd 56A. Y mathau o sancsiynau sifil y caniateir iddynt gael eu gosod yw'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf 2008, er enghraifft, cosbau ariannol penodedig, gofynion i gymryd camau penodedig, neu hysbysiadau stop.

### **Adran 32 – Cyflwyno dogfennau drwy gyfathrebiadau electronig**

220. Mae adran 32 yn diwygio adran 89(1A) o Ddeddf 1990, er mwyn dileu'r cyfyngiad ar gyflwyno dogfennau drwy gyfathrebiadau electronig mewn perthynas ag adeiladau yng Nghymru, gan ganiatáu i bob dogfen gael ei chyflwyno drwy gyfathrebiadau electronig.

214. Section 30(6) also inserts new subsections (5B) to (5G) into section 55 of the 1990 Act which provide for the expenses incurred in carrying out urgent works to be a charge on the land on which the listed building stands. The new subsections also provide for: the imposition of interest on the sum owed at a rate to be prescribed by order of the Welsh Ministers, the manner in which a land charge takes effect, and the powers and remedies available to the local planning authority under the Law of Property Act 1925 to enforce the charge, including a power to appoint a receiver.

### **Section 31 – Preservation of listed buildings in disrepair**

215. Section 31(1) inserts new section 56A into the 1990 Act, which allows Welsh Ministers to make regulations for local authorities or the Welsh Ministers to take further steps for the proper preservation of listed buildings that have fallen into disrepair. The regulations may make provision for the service of a preservation notice on the owner of a listed building. Such a notice may specify the works required to secure the building's proper preservation and a deadline for the execution of the works. The regulations may also make provision for appeals against preservation notices, offences for failure to comply with the notices and appeals in respect of such offences.
216. New section 56A(3) and(4) allows the regulations under this section to disapply, apply or reproduce, with or without modification, any provisions in the 1990 Act, as well as to amend the 1990 Act, for the purpose of the preservation of listed buildings in disrepair.
217. Section 31(2) amends section 82A of the 1990 Act (application to the Crown) so that provision made under section 56A cannot bind the Crown.
218. Section 31(3) amends section 88 of the 1990 Act (rights of entry) to allow for the service of preservation notices.
219. Section 31(4) amends the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 to enable civil sanctions to be imposed in respect of offences in regulations made under new section 56A. The kinds of civil sanctions that may be imposed are those contained in Part 3 of the 2008 Act, for example, fixed monetary penalties, requirements to take specified steps, or stop notices.

### **Section 32 – Service of documents by electronic communication**

220. Section 32 amends section 89(1A) of the 1990 Act, so as to remove the restriction on the service of documents by electronic communication in relation to buildings in Wales, allowing all documents to be served by electronic communications.

### **Adran 33 – Penderfynu ar apelau gan berson a benodir: darpariaeth atodol**

221. Mae adran 33 yn mewnosod paragraff newydd 7(3) yn Atodlen 3 i Ddeddf 1990 (penderfynu ar apelau penodol gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru). Mae'r paragraff newydd yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi aelod o staff Llywodraeth Cymru i benderfynu ar apêl o dan Atodlen 3, fod y swyddogaethau o benderfynu ar yr apêl a'r swyddogaethau o wneud unrhyw beth mewn cysylltiad â'r apêl i gael eu trin fel swyddogaethau Llywodraeth Cymru at ddibenion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae hyn yn galluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i unrhyw honiadau o gamweinyddu a wneir mewn perthynas â'r ffordd y mae'r person a benodir yn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

### **RHAN 4: AMRYWIOL**

#### **Adran 34 – Rhestr o enwau lleoedd hanesyddol**

222. Mae adran 34 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru.

#### **Adran 35 – Cofnodion amgylchedd hanesyddol**

223. Mae adran 35 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru a'i gadw'n gyfredol.
224. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynonellau gwybodaeth hollbwysig ar gyfer y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy. Mae'r wybodaeth honno yn fan cychwyn pwysig ar gyfer prosesau rheoli, cadwraeth, gwaith maes ac ymchwil, ac ymgysylltu â'r cyhoedd ac allgymorth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n sail i'r cyngor archaeolegol a'r cyngor rheoli treftadaeth arall a ddarperir i awdurdodau cynllunio lleol. Heb wybodaeth o'r fath, byddai amheuaeth ynghylch y cyngor hanfodol sy'n llywio, er enghraift, yr asesiad o effaith cynigion datblygu ar yr amgylchedd hanesyddol.
